# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

DYDD MERCHER 26 Chwefror 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd;
J. Hancock, Swyddog y Biwro;
A. Nicholas, Swyddog Adfywio Gwledig;
M. Pemberton, Leader Co-ordinator;
T Peregrine, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Swyddfa'r Arweinydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin:** 10.00 am - 10.50 am

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU -16 IONAWR, 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 16 Ionawr 2020, gan ei fod yn gywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: Y GRONFA CYLLID A DARGEDIR A CHRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cyllid a Dargedir a Chronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.**

| Y Gronfa Cyllid a Dargedir | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| TFF-19-06 | Clwb Rygbi Llandeilo | £20,000.00 |
| TFF-19-07 | Menter Cwm Gwendraeth Elli | £20,000.00 |

| Cronfa'r Degwm | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| WCF-19-35 | Canolfan Gymunedol Llangadog | £2,317.63 |

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

5. **CYMORTH ARIANNOL GAN RAGLEN ARFOR**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth o Gronfa ARFOR.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa ARFOR yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Cronfa Grant Rhaglen ARFOR** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| AG2-01 | Black Dragon Crafts | £20,436.00 |
| AG2-04 | Lyfli Foods Ltd. | £50,000.00 |
| AG2-06 | Do Goodly Foods Ltd.* | £35,486.44 |
| AG3-04 | Y Stand Laeth | £32,928.55 |
| AG3-05 | Cambrian Pet Foods | £50,000.00 |
| AG3-08 | Atebol | £48,549.00 |
| AG3-09 | Llaeth Dyffryn Tywi | £24,765.00 |
| AG3-12 | Mario's | £21,090.00 |
| AG3-23 | Mentrau Creadigol Cymru | £26,156.37 |
| AG3-01 | Fat Bottom Cakes* | £7,478.40 |

[*Rhoi cyngor pellach ynghylch defnyddio'r Gymraeg ar labeli ac ati]

6. **CRONFA MENTRAU GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN A'R RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD ADFYWIO**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau**

**busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth o Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio.

**PENDERFYNWYD**

**6.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio, yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a'r rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| CREF 065 | Like A Fish | £128,000.00 |
| CREF 097 | Old Oak Dental | £128,000.00 |

| **Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| TRI PEDG | Martin Taffetsauffer [13-15 Heol yr Orsaf / 38,36,34 Stryd Inkerman, Llanelli] | £69,655.28 |
| TRI SLG | Martin Taffetsauffer [13-15 Heol yr Orsaf / 38,36,34 Stryd Inkerman, Llanelli] | £180,000.00 |

**6.2 nodi'r cais a gafwyd ynghylch 12 Heol yr Orsaf, Llanelli [cais gan eiddo CSC] am gymorth gan y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio.**

______________________________ _____________________

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **Y DYDDIAD**